


Chwilio am bariad

Canlyniadau diweddaraf Cymru o'r
Fenter Twyll Genedlaethol

Hydref 2026



Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn fel crynodeb o waith a wnaed dan Ran 3A Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os ydych yn ei ailddefnyddio, rhaid i'ch ailddefnydd fod yn gywir ac ni ddylai fod mewn cyd-destun sy'n gamarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae'n rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Os oes angen cymorth arnoch gyda'r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- e-bostiwch ni: post@archwilio.cymru

Cewch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb yn yr iaith yr ydych yn ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Cynnwys

Ciplun archwilio	4
Barn yr Archwilydd Cyffredinol	7
Ffeithiau a ffigyrau allweddol	8
Ein canfyddiadau	9

Atodiadau

1 Ynglŷn â'n gwaith	22
2 Dadansoddi deilliannau yn ôl meysydd paru data ac astudiaethau achos	26
3 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn	49



Ciplun archwilio

Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

- 1 Ymarfer paru data ledled y DU gyfan yw'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI). Awdurdod Twyll Sector Cyhoeddus Llywodraeth y DU sy'n arwain y Fenter Twyll Genedlaethol ar lefel y DU ac yn Lloegr, ond fe'i cyflawnir yng Nghymru dan bwerau paru data'r Archwilydd Cyffredinol.
- 2 Mae data gan gyrrff amrywiol yn cael ei gymharu'n electronig i chwilio am anghysonderau a allai fod yn arwydd o dwyll, gordaliadau neu wallau, a helpu i ymdrin â hwy. Gallai hyn, er enghraifft, gynnwys achosion o'r canlynol:
 - pobl yn cael disgowntiau'r dreth gyngor neu fudd-daliadau eraill, wedi'u cynnwys ar restrau aros ar gyfer tai, neu'n defnyddio hawlenni parcio bathodyn glas, pan nad oes ganddynt hawl i hynny;
 - taliadau am ofal cymdeithasol i oedolion neu bensiynau'n dal i gael eu gwneud ar ôl i rywun farw; a hefyd
 - taliadau dyblyg i gyflenwyr, neu bobl ar ddwy gyflogres wahanol ar yr un pryd mewn rolau â sifftiau sy'n gorgyffwrdd.
- 3 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau ar gyfer Cymru o ymarfer diweddaraf y Fenter Twyll Genedlaethol. Mae'n cwmpasu deilliannau ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2026. Mae hyn yn cynnwys deilliannau yr adroddwyd arnynt yn hwyr o'r ymarfer blaenorol. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu ar dystiolaeth o'n hymgysylltiad â'r 50 o gyrrff cyhoeddus yng Nghymru a fu'n rhan o'r ymarfer.

Pam fod hyn yn bwysig

- 4 Mae gwneud y gorau o bob punt o wariant cyhoeddus yn hanfodol. Er bod llawer o'r arian cyhoeddus a gaiff ei wario gan gyrff cyhoeddus Cymru'n cael ei reoli'n dda, mae gwastraff, gwallau a thwyll y gellir eu hatal a'u canfod yn dal i fodoli.
- 5 Mae ymarferion megis y Fenter Twyll Genedlaethol – dim ond un ffordd y gall cyrff ddefnyddio dadansoddeg data – yn rhan bwysig o'r dirwedd wrth-dwyll. Ac os yw'r rhai sydd â'u bryd ar gyflawni twyll yn synhwyro diffyg gwyliadwriaeth, gallai'r risgiau gynyddu. Ond dim ond dangosydd yw pariad data, felly mae angen gwaith dilynol cyn bod cyrff yn dwyn unrhyw gasgliadau.
- 6 Y tu hwnt i unrhyw arbedion ariannol, gall canlyniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol ddarparu sicrwydd ynghylch systemau rheolaeth fewnol cyrff. Gallant hefyd amlygu meysydd ar gyfer gwella.

Yr hyn yr ydym wedi'i ganfod

- 7 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn dal i gynorthwyo cyrff yng Nghymru i atal a chanfod twyll, cryfhau rheolaethau mewnol, a gwella ansawdd data. Ers iddi ddechrau ym 1996, mae'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi adrodd ar ddeilliannau ar gyfer Cymru sy'n gyfanswm o £65.2 miliwn. Ystyr deilliannau yw'r gwerth ariannol a roddir i achosion o dwyll, gordaliad neu wall a adnabuwyd.
- 8 Mae'r ymarfer diweddaraf, Menter Twyll Genedlaethol 2024-25, yn adrodd ar ddeilliannau ar gyfer Cymru sy'n werth £8.7 miliwn. Mae hyn £1.6 miliwn yn uwch na'r ymarfer blaenorol, gyda nifer yr achosion o dwyll, gordaliadau a gwallau a adnabuwyd yn cynyddu 26%. Dywedodd cyrff eu bod wedi profi amryw fanteision ehangach. Mae data a gyflwynwyd gan gyrff yng Nghymru wedi bod yn gysylltiedig â £2.1 miliwn o'r deilliannau yr adroddwyd arnynt ar gyfer cyrff mewn rhannau eraill o'r DU hefyd.

- 9 Ar y cyfan, mae cyrff wedi ymgysylltu'n well â Menter Twyll Genedlaethol 2024-25, ond ceir meysydd ar gyfer gwella o hyd. Mae'r meysydd hynny'n cynnwys:
- cwblhau gwaith dilynol ar bariadau data mewn ffordd amserol;
 - cofnodi gwaith dilynol yn briodol yn system y Fenter Twyll Genedlaethol i osgoi tanadrodd ar ddeilliannau – daeth £1.1 miliwn o gyfanswm y deilliannau yr adroddwyd arnynt o gywiriadau yn dilyn ein hadolygiad ni ein hunain;
 - sut y mae cyrff yn adrodd yn lleol ar eu gwaith paru data dan y Fenter Twyll Genedlaethol a gwaith paru data arall, er enghraifft wrth eu pwyllgorau archwilio neu bwyllgorau cyfatebol; a
 - sut y gallai cyrff â mynediad wneud defnydd gwell o offeryn gwirio ceisiadau'r Fenter Twyll Genedlaethol i atal rhai o achosion y Fenter Twyll Genedlaethol rhag blaen.

Yr hyn yr ydym yn ei argymhell

- 10 Nid ydym yn gwneud argymhellion yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, gall cyrff ddefnyddio ein rhestr wirio ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol i fyfrio ynghylch sut y maent yn mynd ati i wneud eu gwaith. Gallai canlyniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol, a'r hyn yr ydym yn ei wybod am sut y mae cyrff yn rheoli eu gweithgarwch dan y Fenter Twyll Genedlaethol, oleuo gwaith archwilio arall hefyd.
- 11 Mae rhagor o gyrff cyhoeddus Cymru'n ymuno â'r Fenter Twyll Genedlaethol ar gyfer yr ymarfer nesaf, gan ehangu ei chyrhaeddiad a'i heffaith. Rydym yn bwriadu parhau i ymgysylltu â chyrff i hybu dull gweithredol ond seiliedig-ar-risg o adolygu pariadau data ac i roi cymorth i ddysgu gwersi ar y cyd.
- 12 Mae arnom hefyd eisiau gwneud yn siŵr bod cyrff yn cofnodi deilliannau'n iawn. Gallwn wedyn adrodd stori mor llawn â phosibl am effaith y Fenter Twyll Genedlaethol. Ac rydym yn parhau i archwilio sut y gall cyrff o bosibl ddefnyddio data / swyddogaethau yn system y Fenter Twyll Genedlaethol mewn ffyrdd newydd, megis mewn perthynas â hawliadau am wasanaethau offthalmig.
- 13 Yn y cyfamser, mae Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus yn bwrw ymlaen â gwaith peilot mewn meysydd gan gynnwys twyll cyfradd busnes a thai cymdeithasol. Mae hefyd yn cynllunio datblygiadau ehangach ar gyfer system y Fenter Twyll Genedlaethol, gan gynnwys cefnogi newid i fwy o atal mewn amser real.



Barn yr Archwilydd Cyffredinol



Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn offeryn allweddol yn y frwydr i atal a chanfod twyll, gordaliadau, a gwallau sydd, os na chânt eu rhwystro, yn gallu lleihau ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn ein gwasanaethau cyhoeddus hanfodol ac arwain at golledion ariannol.

Mae sicrhau bod twyllwyr yn cael eu hadnabod, a bod pob punt o arian cyhoeddus yn cael ei gwario'n ddoeth ar wasanaethau sydd o bwys i bobl Cymru gan adlewyrchu'r hyn y mae ganddynt hawl iddo, yn hollbwysig. Dyna pam y byddwn ni'n parhau i ddatblygu ein gwaith ar y Fenter Twyll Genedlaethol gan ein bod ni'n gwybod bod mwy y gallwn ni a chyrff cyhoeddus ei wneud.

Catherine Mealing-Jones

Archwilydd Cyffredinol Cymru





Ffeithiau a ffigyrau allweddol



£8.7 miliwn

Gwerth twyll, gordaliadau, a gwallau yr adroddwyd arnynt ar gyfer Cymru ym Menter Twyll Genedlaethol 2024-25.



£1.6 miliwn

Cynnydd yng ngwerth twyll, gordaliadau, a gwallau yr adroddwyd arnynt ar gyfer Cymru ym Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 o'i gymharu â'r ymarfer blaenorol (Menter Twyll Genedlaethol 2022-23).



£65.2 miliwn

Gwerth cronrus twyll, gordaliadau, a gwallau yr adroddwyd arnynt ar gyfer Cymru trwy'r Fenter Twyll Genedlaethol ers 1996.



5,472

Achosion unigol o dwyll, gordaliad, a gwall a adnabuwyd ar gyfer Cymru ym Menter Twyll Genedlaethol 2024-25, sy'n gynnydd o 26% o'i gymharu â'r ymarfer blaenorol (Menter Twyll Genedlaethol 2022-23).



£2.1 miliwn

Deilliannau yr adroddwyd arnynt mewn rhannau eraill o'r DU a oedd yn gysylltiedig â data a gyflwynwyd gan gyrff yng Nghymru.



50

Nifer y cyrff yng Nghymru a gyfranogodd ym Menter Twyll Genedlaethol 2024-25.




Ein canfyddiadau

Deilliannau ar y cyfan

Fe wnaeth deilliannau'r Fenter Twyll Genedlaethol ar gyfer Cymru gynyddu i £8.7 miliwn, yr uchaf yr adroddwyd arnynt dros y pum ymarfer diwethaf, a chynnydd o £1.6 miliwn o'i gymharu â Menter Twyll Genedlaethol 2022-23

- 14 Roedd 5,472 o achosion o dwyll, gordaliad a gwall yr adroddwyd arnynt ym Menter Twyll Genedlaethol 2024-25. Roedd hyn yn gynnydd o 26% o'i gymharu â Menter Twyll Genedlaethol 2022-23.
- 15 Mae'r deilliannau yr adroddwyd arnynt ar gyfer Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 yn gyfanswm o £8.7 miliwn. Mae hyn £1.6 miliwn (23%) yn fwy na'r £7.1 miliwn yr adroddwyd arno ar gyfer Menter Twyll Genedlaethol 2022-23. Hwn hefyd yw'r ffigwr uchaf yr adroddwyd arno dros y pum ymarfer diwethaf (gweler **Arddangosyn 1**).

Arddangosyn 1: gwerth y deilliannau dros amser, o Fenter Twyll Genedlaethol 2016-17 i Fenter Twyll Genedlaethol 2024-25 (£ miliwn)




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

Nodyn: Mae'r ffigyrau ar gyfer pob ymarfer yn cwmpasu cyfnod o ddwy flynedd, gan ddechrau o 1 Ebrill yn y flwyddyn a ddangosir, ac maent yn cynnwys unrhyw ddeilliannau yr adroddwyd yn hwyr arnynt o'r ymarfer blaenorol.

- 16 Ar y cyfan, ers i'r Fenter Twyll Genedlaethol ddechrau ym 1996 mae cyrff yng Nghymru wedi cofnodi deilliannau cronnos o oddeutu £65.2 miliwn. Mae'r rheiny wedi cyfrannu at ddeilliannau ledled y DU o oddeutu £3.5 biliwn.
- 17 Mae deilliannau'n cynnwys ffigyrau 'gwirioneddol' ac 'amcangyfrifedig'. Dengys **Arddangosyn 2**, o'r cyfanswm deilliannau o £8.7 miliwn ar gyfer Cymru ym Menter Twyll Genedlaethol 2024-25:
- fod deilliannau gwirioneddol yn rhoi cyfrif am £2.8 miliwn (32%), sy'n ostyngiad o £0.4 miliwn (13%) o'i gymharu â Menter Twyll Genedlaethol 2022-23; a
 - bod deilliannau amcangyfrifedig yn rhoi cyfrif am £5.9 miliwn (68%), sy'n gynydd o £2.0 miliwn (51%) o'i gymharu â Menter Twyll Genedlaethol 2022-23.

Arddangosyn 2: gwerth deilliannau gwirioneddol ac amcangyfrifedig, o Fenter Twyll Genedlaethol 2022-23 i Fenter Twyll Genedlaethol 2024-25 (£ miliwn)



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

Nodiadau:

Mae deilliannau gwirioneddol yn cyfeirio at symiau y mae cyrff wedi'u cofnodi fel twyll, gordaliadau, neu wallau, y gallant eu hadennill. Mae deilliannau amcangyfrifedig yn ceisio cyfleu gwerth y golled o dwyll neu wallau a ganfuwyd, a gwerth unrhyw golledion yn y dyfodol y gallai cyrff fod wedi'u hysgwyddo heb ymyrraeth yn dilyn pariad yn y Fenter Twyll Genedlaethol.

Mae'r ffigyrau ar gyfer pob ymarfer yn cwmpasu cyfnod o ddwy flynedd, gan ddechrau o 1 Ebrill yn y flwyddyn a ddangosir, ac maent yn cynnwys unrhyw ddeilliannau yr adroddwyd yn hwyr arnynt o'r ymarfer blaenorol.


- 18 O fewn y ffigwr deilliannau gwirioneddol, fe gododd deilliannau yr adroddwyd arnynt yn uniongyrchol gan gyrff yng Nghymru £0.3 miliwn. Ond fe wnaeth deilliannau budd-dal tai yng Nghymru yr adroddwyd arnynt gan Adran Gwaith a Phensiynau'r DU ostwng £0.7 miliwn.¹
- 19 Ar ddiwedd cyfnod adrodd Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 (31 Mawrth 2026), adroddodd cyrff fod £2.5 miliwn (92%) o'r deilliannau gwirioneddol wedi cael eu hadennill neu eu bod yn y broses o gael eu hadennill.
- 20 Daw'r cynnydd mewn deilliannau amcangyfrifedig o ddau brif faes, sef cansladau am hawlenni parcio bathodyn glas a thynnu ymgeiswyr anghymwys oddi ar restrau aros ar gyfer tai.
- 21 Mae rhyw £1.0 miliwn (12%) o gyfanswm y deilliannau'n ymwneud ag achosion o bariadau Menter Twyll Genedlaethol 2022-23 lle gwnaeth cyrff gwblhau eu gwaith dilynol ar ôl mis Mawrth 2024. Daw'r rhan fwyaf o hyn o bariadau data ar gyfer budd-dal tai a chynllun gostyngiadau'r dreth gyngor.
- 22 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn rhoi cymorth i rannu data ar draws cyrff, sectorau a ffiniau cenedlaethol. Ar gyfer Menter Twyll Genedlaethol 2024-25, mae Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus yn adrodd bod data a gyflwynwyd gan gyrff yng Nghymru wedi bod yn gysylltiedig â £2.1 miliwn o'r deilliannau yr adroddwyd arnynt ar gyfer cyrff mewn rhannau eraill o'r DU (o 1,582 o bariadau).

1 Mae awdurdodau lleol yn gwneud gwaith dilynol ar bariadau data budd-dal tai eu hunain lle cafwyd gwall prosesu. Ond maent yn atgyfeirio achosion at yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer gwaith dilynol lle ceir amheuaeth o dwyll.

Disgownt person sengl y dreth gyngor wnaeth ddwyn y deilliant mwyaf eto, gyda’r canlyniadau’n aros yn sefydlog o’i gymharu â newidiadau mwy mewn meysydd eraill

23 Dengys **Arddangosyn 3** sut y mae’r £8.7 miliwn mewn deilliannau ar gyfer Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 wedi’i rannu ar draws y prif feysydd paru data. Mae hefyd yn cymharu hyn â’r ymarfer blaenorol.

Arddangosyn 3: gwerth deilliannau yn ôl maes paru data, Menter Twyll Genedlaethol 2022-23 a Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 (£ miliwn)



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

Nodyn: Mae’r ffigyrau ar gyfer pob ymarfer yn cwmpasu cyfnod o ddwy flynedd, gan ddechrau o 1 Ebrill yn y flwyddyn a ddangosir, ac maent yn cynnwys unrhyw ddeilliannau yr adroddwyd yn hwyr arnynt o’r ymarfer blaenorol.

24 Mae **Atodiad 2** yn nodi dadansoddiad pellach o ddeilliannau ac achosion yn ôl maes paru data ar gyfer Menter Twyll Genedlaethol 2024-25. Mae'n cynnwys mwy o ddadansoddi hanesyddol. Mae negeseuon allweddol o'r prif feysydd paru data'n cynnwys:

- Ar £3.0 miliwn, disgowntiau person sengl y dreth gyngor sy'n dal i ddwyn y deilliannau uchaf yr adroddwyd arnynt, ac mae'r ffigwr yn debyg i'r ffigwr ar gyfer Menter Twyll Genedlaethol 2022-23. Fe gododd y deiliant cyfartalog am bob hawliad a ganslwyd o oddeutu £1,410 i £1,670.
- Fe gynyddodd nifer yr hawlenni parcio bathodyn glas a ganslwyd 78% i bron 2,800, y lefel uchaf a gofnodwyd ar draws y pum ymarfer diwethaf. Fe arweiniodd hyn at ddeilliannau gwerth £2.2 miliwn yn ôl yr amcangyfrif.
- Fe gynyddodd nifer yr ymgeiswyr anghymwys a dynnwyd oddi ar restrau aros ar gyfer tai o 124 i 330. Roedd y 330 o achosion hynny'n gyfwerth ag oddeutu £1.4 miliwn mewn deilliannau amcangyfrifedig. Mae hyn yn cymharu â £0.5 miliwn yn yr ymarfer blaenorol.
- Fe wnaeth deilliannau o bariadau cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor fwy na threblu yn ystod y cyfnod adrodd hwn, gan gyrraedd bron i £1.0 miliwn. Fe gododd y gwerth cyfartalog fesul achos o oddeutu £1,580 i £3,080.
- Fe ostyngodd deilliannau o bariadau budd-dal tai fwy na 60%, sy'n adlewyrchu nifer gostyngol yr hawliadau wrth i bobl newid i Gredyd Cynhwysol, ynghyd â deilliannau anarferol o uchel ar gyfer Menter Twyll Genedlaethol 2022-23 oherwydd ôl-groniadau a oedd yn gysylltiedig â'r pandemig.
- Fe ostyngodd nifer yr achosion o ordalu pensiwn o 40 i 26, gyda deilliannau pensiwn yn gostwng o £0.45 miliwn i £0.18 miliwn, er bod gwerth gordaliadau adenilladwy (deilliannau gwirioneddol) wedi cynyddu ychydig.
- Fe gyrhaeddodd achosion o daliadau dyblyg i gredydwyd eu lefel uchaf ar draws pum ymarfer diwethaf y Fenter Twyll Genedlaethol, gan gynyddu o 42 ym Menter Twyll Genedlaethol 2022-23 i 71. Fodd bynnag, bu cyfanswm gwerth y deilliannau bron â haneru, gan ostwng i £0.14 miliwn.
- Fe wnaeth ailgyflwyno gweithgarwch paru data gofal cymdeithasol i oedolion adnabod gordaliadau a oedd yn gyfanswm o £0.12 miliwn.²

2 Nid oedd data ar ofal cymdeithasol i oedolion yn gallu cael ei gasglu tan hydref 2025, unwaith yr oedd deddfwriaeth berthnasol wedi cael ei phasio, gyda phariadau'n cael eu rhyddhau ychydig cyn diwedd 2025. Mae Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus yn disgwyl gwneud gwaith paru data manylach ar ddata gofal cymdeithasol i oedolion yn y dyfodol.

Mae manteision ehangach y Fenter Twyll Genedlaethol yn ymestyn y tu hwnt i'w deilliannau ariannol

25 Yn ogystal â deilliannau ariannol, dywedodd cyrff wrthym am fanteision ehangach sy'n deillio o baru data dan y Fenter Twyll Genedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- atgyfnerthu pwysigrwydd a chodi proffil gwaith atal a chanfod twyll, yn enwedig gyda phwyllgorau archwilio (neu'r hyn sy'n cyfateb iddynt);
- gwella prosesau mewnol – megis y rhai sy'n ymwneud â datganiadau o fuddiant gan gyflogeion;
- adnabod anghenion hyfforddi ar gyfer staff;
- gwella ansawdd a chyfanrwydd data, er enghraifft trwy lanhau cofnodion credydwy'r a thai;
- helpu i adnabod a chywiro materion o ran ansawdd data yn eu systemau, megis rhifau Yswiriant Gwladol anghywir; ac
- fe ganfu'r Fenter Twyll Genedlaethol un achos posibl o ddwyn hunaniaeth.

Sut y mae cyrff yn gwneud gwaith dilynol ar bariadau data

Ar y cyfan, mae cyrff wedi ymgysylltu'n well â Menter Twyll Genedlaethol 2024-25, ond mae meysydd ar gyfer gwella o hyd

- 26 Mae gwireddu manteision y Fenter Twyll Genedlaethol yn dibynnu ar fuddsoddi amser ac ymdrech gan gyrff i asesu ac adolygu pariadau data'n effeithiol. Mae mesur effaith y Fenter Twyll Genedlaethol ar y cyfan hefyd yn dibynnu ar waith gan gyrff i gofnodi eu gweithgarwch a'u deilliannau.
- 27 Ar ddiwedd Menter Twyll Genedlaethol 2022-23, fe wnaethom adrodd bod ein hadolygiad o adroddiadau paru data wedi amlygu anghysonderau mewn trefniadau dilynol lleol.³ Roedd rhai amrywiadau mawr hefyd mewn deilliannau rhwng cyrff o fath tebyg ac felly y mae hi o hyd, er y gallai adlewyrchu ystod o ffactorau.
- 28 Yn ystod Menter Twyll Genedlaethol 2024-25, fe ddatblygom ni offeryn newydd i ddadansoddi data o system y Fenter Twyll Genedlaethol. Fe helpodd hyn ni i ddarparu diweddariadau lleol ar bariadau data cyrff, a'u cynnydd gyda'u gwaith dilynol. Fe wnaeth hefyd oleuo ein hymgysylltiad â chyrff, ac mae hyn oll wedi rhoi dealltwriaeth well i ni am eu gweithgarwch.
- 29 Ein barn ni ar y cyfan yw bod cyrff wedi ymgysylltu'n well â Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 nag a wnaethant â'r ymarfer blaenorol. Mae tystiolaeth o system y Fenter Twyll Genedlaethol am sut y mae cyrff wedi gwneud gwaith dilynol ar bariadau data a nifer yr achosion a broseswyd ar y cyfan hefyd yn ategu hyn.
- 30 Fodd bynnag, ceir meysydd ar gyfer gwella o hyd, fel a nodir yn yr adrannau a ganlyn, a chyda rhai cyrff yn dangos llai o ymrwymiad i waith y Fenter Twyll Genedlaethol na'i gilydd.

Nid yw gwaith dilynol wastad yn cael ei gwblhau'n brydlon

- 31 Mae blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd a chapasiti cyfyngedig yn gallu ei gwneud hi'n anodd i gyrff gwblhau gwaith y Fenter Twyll Genedlaethol ar amser. Mae oedi cyn gwneud gwaith dilynol ar bariadau data'n gallu lleihau effeithiolrwydd yr ymarfer. Gall gweithgarwch sydd o bosibl yn dwyllodrus, ynghyd â thaliadau, disgowntiau a dyfarniadau anghywir barhau am yn hwy, gan gynyddu colledion a lleihau cyfleoedd i adennill arian.
- 32 Fodd bynnag, fel canllaw mae Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus yn awgrymu, ar gyfer y pariadau data dwyflynyddol a ryddhawyd ym mis Rhagfyr 2024, y dylai cyrff fod wedi amcanu at adnabod cynlluniau ar gyfer gwaith dilynol fel a ganlyn:
- yr holl bariadau lle mae amser o'r pwys mwyaf / lle ceir risg uchel erbyn 31 Mawrth 2025; a
 - gweddill yr adroddiadau paru erbyn 30 Mai 2025.
- 33 Mewn rhai achosion, fe wnaeth ein hymgysylltiad â chyrff trwy ail hanner 2025-26 ysgogi gweithgarwch dilynol pellach. Ar y cyfan, cafodd oddeutu chwarter y pariadau data dwyflynyddol a broseswyd gan gyrff yn ystod Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 eu cofnodi felly rhwng 1 Hydref 2025 a 31 Mawrth 2026.⁴
- 34 Mae gwaith ar bariadau data'n gallu parhau ar ôl diwedd pob un o gyfnodau adrodd y Fenter Twyll Genedlaethol hefyd. O ran y sefyllfa ar 31 Gorffennaf 2026, roedd cyrff wedi prosesu oddeutu 6,270 o bariadau data yn rhagor o bariadau data ymarfer dwyflynyddol Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 ar ôl 31 Mawrth 2026. Roeddent yn dal wrthi'n adolygu 1,490 o bariadau eraill.⁵
- 35 Bu oedi hefyd cyn gwneud gwaith dilynol ar bariadau disgownt person sengl y dreth gyngor. Er enghraifft, daeth £1.6 miliwn o ddeilliannau disgownt person sengl y dreth gyngor yr adroddwyd arnynt ar gyfer Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 o bariadau data yn hwyr yn 2023. Roedd oddeutu traean o'r deilliannau hyn o achosion nas proseswyd tan ar ôl i'r set nesaf o bariadau gael ei ryddhau tuag at ddiwedd 2024.

4 Nid yw'r dadansoddiad hwn yn cynnwys paru data disgownt person sengl y dreth gyngor sy'n digwydd yn flynyddol. Ar y cyfan, o oddeutu 243,600 o bariadau dwyflynyddol a ryddhawyd i gyrff fel rhan o Fenter Twyll Genedlaethol 2024-25, roedd cyrff wedi cofnodi bod oddeutu 64,900 (27%) wedi'u prosesu erbyn 31 Mawrth 2026.

5 Fe wnaeth cyrff brosesu rhyw 10,000 o bariadau o bariadau dwyflynyddol Menter Twyll Genedlaethol 2022-23 ar ôl diwedd y cyfnod adrodd ar gyfer yr ymarfer hwnnw (31 Mawrth 2024).

- 36 Hefyd, mae system y Fenter Twyll Genedlaethol yn cynnwys swyddogaeth 'sylwadau a rannwyd' i ategu cydweithio rhwng cyrff ledled y DU. Mae'n eu galluogi i gyfnewid gwybodaeth am bariadau penodol ac yn helpu i osgoi gwaith dilynol dyblyg. Fodd bynnag, canfuom nad yw cyrff wastad yn ymateb i geisiadau am wybodaeth mewn modd amserol, os o gwbl.
- 37 Mae cyrff yn cyflawni gweithgarwch y Fenter Twyll Genedlaethol mewn gwahanol ffyrdd:
- Mewn rhai cyrff, y cyswllt allweddol â chyfrifoldeb am oruchwylio gwaith y Fenter Twyll Genedlaethol a'u tîm, megis archwilio mewnol neu wrth-dwyll, sy'n arwain yr ymarfer. Maent yn cynnal asesiadau risg ac yn gwneud gwaith dilynol, gan weithio gydag adrannau gwasanaethau lle y bo angen.
 - Mewn cyrff eraill, mae'r cyswllt allweddol yn ysgwyddo mwy o rôl gydlyn, tra bo adrannau gwasanaethau'n asesu pariadau ac yn gwneud gwaith dilynol arnynt gan ddefnyddio eu gwybodaeth am feysydd paru data penodol.
- 38 Nid ydym wedi ceisio mesur faint o amser y mae gwahanol gyrff yn ei neilltuo i'w gwaith dan y Fenter Twyll Genedlaethol. Hwyl sydd i benderfynu beth sy'n gymesur fel rhan o'u gweithgarwch gwrth-dwyll ehangach.
- 39 Fodd bynnag, clywsom farn gymysg ynglŷn â sut y darperir adnoddau ar gyfer gwaith y Fenter Twyll Genedlaethol. Mae rhai cyrff o'r farn eu bod yn neilltuo digon o adnoddau. Mae eraill yn credu y byddai mwy o adnoddau'n ganolog neu o fewn meysydd gwasanaeth, ac ymgysylltu gwell, yn gwella gwaith dilynol ac yn cynyddu gwerth yr ymarfer.

Nid yw gwaith dilynol wastad yn cael ei gofnodi'n iawn yn system y Fenter Twyll Genedlaethol, sy'n creu risg o danadrodd ar ddeilliannau

- 40 Pan nad yw'n ymarferol gwneud gwaith dilynol ar yr holl bariadau data, dylai cyrff ddefnyddio dull seiliedig-ar-risg i gynllunio eu gwaith. Mae hyn yn cynnwys penderfynu pa bariadau i'w hadolygu, ym mha drefn, a pha waith y mae ei angen.⁶ Mae llawer o gyrff yn cael miloedd llawer o bariadau ac mae rhai'n cael llawer mwy na hynny.
- 41 Mae system y Fenter Twyll Genedlaethol yn cynnwys rhoi sgoriau risg. Roedd y system wedi nodi bod y rhan fwyaf o bariadau a broseswyd gan gyrff ar gyfer Fenter Twyll Genedlaethol 2024-25 yn rhai risg 'uchel' neu 'uchel iawn'. Y cyrff sy'n dal i fod yn gyfrifol am ffurfio eu barn eu hunain wedyn.

6 Gall nifer o ffactorau ddylanwadu ar asesiadau risg a phenderfyniadau dilynol. Mae'r rhain yn cynnwys tueddiadau yn y gorffennol, gwendidau hysbys mewn rheolaethau, sgoriau risg y Fenter Twyll Genedlaethol, a'r angen i weithredu'n gyflym ar adroddiadau sy'n sensitif o ran amser.

- 42 Gallai cyrff egluro wrthym fel arfer sut y maent yn asesu risg pariadau ac yn gwneud gwaith dilynol. Ond nid ydynt wastad yn cofnodi'r gwaith y maent wedi'i wneud yn system y Fenter Twyll Genedlaethol ei hun nac yn ei egluro'n llawn. Er enghraifft, canfuom fod un corff wedi gwneud gwaith dilynol ar oddeutu 500 o bariadau data pensiynau ond mai dim ond yr achosion hynny lle canfu wallau yr oedd wedi'u prosesu yn system y Fenter Twyll Genedlaethol.
- 43 Canfuom hefyd enghreifftiau eraill lle nad oedd y ffordd yr oedd cyrff yn disgrifio gwaith dilynol i'w gweld fel pe bai'n ymdrin â diben y pariad data, yn cydymffurfio â'r canllawiau a argymhellir mewn perthynas â'r Fenter Twyll Genedlaethol, nac yn ategu'r casgliadau y daethpwyd iddynt.
- 44 Ar gyfer 11 o'r 50 o gyrff a fu'n rhan ohoni, cofnododd system y Fenter Twyll Genedlaethol eu bod wedi prosesu llai na 10% o'u prif bariadau data dwyflynyddol erbyn 31 Mawrth 2026. Mae gan gyrff yr opsiwn i gofnodi bod achosion wedi cael eu prosesu yn dilyn asesu risg, hyd yn oed os ydynt yn penderfynu peidio â gweithredu ymhellach.
- 45 Fe wnaeth ein hadolygiad ni o'r deilliannau yr adroddwyd arnynt gan gyrff achosi i ni gwestiynu'r statws prosesu a gymhwyswyd i rai pariadau data hefyd. Ni fyddai oddeutu £1.1 miliwn o'r ffigwr deilliannau ar y cyfan o £8.7 miliwn wedi cael ei ganfod heb newidiadau yn dilyn ein hymholiadau ni. Roedd y rhan fwyaf o hyn yn ymwneud â hawlenni bathodyn glas (gweler **Atodiad 2**), gyda rhai hefyd yn ymwneud â rhestrau aros ar gyfer tai a phensiynau.
- 46 Bydd camau gweithredu eraill yn dilyn ein hymholiadau ni'n arwain at adrodd ar oddeutu £0.6 miliwn o ddeilliannau bathodyn glas a rhestr aros tai yn ymarfer nesaf y Fenter Twyll Genedlaethol am bod cyrff wedi cywiro materion ar ôl 31 Mawrth 2026 (gweler **Atodiad 2**).
- 47 Mae cofnodi'n iawn yn bwysig ar gyfer cyfleu gweithgarwch prosesu a deilliannau. Mae hefyd yn helpu i wella sut y rhoddir sgoriau risg i bariadau data a sut y cânt eu blaenoriaethu yn y dyfodol. Ac mae'n ategu goruchwyliaeth gan Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus ac Archwilio Cymru, ac yn rhoi cymorth i rannu arfer da.

Gall cyrff wella sut y maent yn adrodd yn lleol ar eu gwaith paru data dan y Fenter Twyll Genedlaethol a gwaith paru data arall

- 48 Mae'r modd y mae cyrff yn adrodd wrth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ar weithgarwch a deilliannau'r Fenter Twyll Genedlaethol yn amrywio. Er enghraifft, mae rhai'n adrodd ar eu deilliannau a'u gweithgarwch dan y Fenter Twyll Genedlaethol wrth eu pwyllgorau archwilio (neu'r hyn sy'n cyfateb iddynt), tra nad yw eraill yn gwneud hynny. Lle cyflwynir adroddiadau, mae eu mynychder, eu hansawdd a lefel y manylder a ddarperir yn amrywio.
- 49 Fodd bynnag, canfuom enghreifftiau o arfer da, gyda chyrff yn cynhyrchu adroddiadau eglur, cytbwys ar weithgarwch a deilliannau dan y Fenter Twyll Genedlaethol. Gwelsom hefyd enghreifftiau o weithio ac adrodd effeithiol rhwng swyddogion sy'n arwain ar waith y Fenter Twyll Genedlaethol ac uwch reolwyr.
- 50 Mae rhai cyrff yn defnyddio darparwyr trydydd parti ar gyfer paru data yn lle defnyddio pariadau data'r Fenter Twyll Genedlaethol. Mae hyn yn digwydd yn fwyaf cyffredin ar gyfer disgowntiau person sengl y dreth gyngor, gyda 10 o'r 22 o awdurdodau yng Nghymru'n defnyddio darparwyr trydydd parti. Maent yn defnyddio'r darparwyr hyn i baru data'n fwy aml ac ar gyfer gwaith dilynol am nad oes ganddynt gapasiti neu sgiliau arbenigol yn fewnol.
- 51 Mae adrodd ar baru data ar wahân i'r Fenter Twyll Genedlaethol yn helpu i roi darlun mwy cyflawn i aelodau a/neu uwch swyddogion o weithgarwch gwrth-dwyll. Fodd bynnag, dim ond dau o'r awdurdodau lleol a oedd yn defnyddio darparwyr trydydd parti i baru data disgownt person sengl y dreth gyngor ddywedodd wrthym ni eu bod yn adrodd wrth eu pwyllgor archwilio ar ddeilliannau'r gwaith hwn.
- 52 Canfu Arolwg o Ymddygiadau Twyll yn 2025 gan Cifas fod oddeutu un ymhob chwech o bobl (16%) naill ai wedi hawlio disgownt person sengl yn anwireddus neu wedi dweud eu bod yn adnabod rhywun a oedd wedi gwneud hynny yn y flwyddyn ddiwethaf.⁷ Mae'r canfyddiadau hyn yn ategu'r angen am adrodd yn eglur ar ganlyniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol ac ymarferion paru data disgownt person sengl y dreth gyngor gan ddarparwyr allanol.

7 Corff dielw sy'n dwyn ynghyd aelodau ar draws gwahanol sectorau i fynd ar drywydd nod cyffredin, sef dileu twyll a throseddau ariannol, yw Cifas. Mae canfyddiadau o arolwg 2025 yn seiliedig ar sampl o 2,000 o oedolion sy'n cynrychioli'r DU gyfan.

Gallai cyrff â mynediad wneud defnydd gwell o offeryn gwirio ceisiadau'r Fenter Twyll Genedlaethol i atal rhai o achosion y Fenter Twyll Genedlaethol rhag blaen

- 53 Mae AppCheck, offeryn atal twyll a gwirio ceisiadau'r Fenter Twyll Genedlaethol, yn helpu i atal twyll, gordaliadau a gwallau cyn iddynt ddigwydd. Mae'n galluogi cyrff i wirio gwybodaeth benodol ar adeg ymgeisio, gan leihau'r risg o daliadau anghywir neu o ddarparu gwasanaethau i bobl nad ydynt yn gymwys.
- 54 Mae gan awdurdodau lleol a chyrff y GIG fynediad llawn at AppCheck, ond mae eu defnydd ohono wedi aros yn isel dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym ni wedi gweithio gyda chyrff, a chyda darparwr system y Fenter Twyll Genedlaethol, i gefnogi hyfforddiant a mentrau codi ymwybyddiaeth mewn perthynas ag AppCheck ac i archwilio sut y gallai cyrff ei ddefnyddio'n fwy ac yn well.



Atodiadau

- 1 Ynglŷn â'n gwaith
- 2 Dadansoddi deilliannau
yn ôl meysydd paru data
ac astudiaethau achos
- 3 Termau allweddol yn
yr adroddiad hwn

1 Ynglŷn â'n gwaith

Cwmpas yr archwiliad

Rydym yn arwain y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru dan bwerau'r Archwilydd Cyffredinol yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae Cod Ymarfer Paru Data yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r ddeddfwriaeth, a rheolaethau, allweddol ar gyfer yr ymarfer.⁸

Mae paru data'r Fenter Twyll Genedlaethol yn tynnu ar ystod eang o setiau data ar draws cyrff. Mae'r prif feysydd gwasanaeth sy'n darparu data'n cynnwys y gyflogres, taliadau i gredydwyd, a phensiynau. Mae awdurdodau lleol hefyd yn nodweddiadol yn darparu data'r dreth gyngor, budd-dal tai, tai, gofal cymdeithasol i oedolion, trwyddedu, a chynlluniau hawlenni.

Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol hefyd yn defnyddio data Llywodraeth y DU a ddarperir gan y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol (Gwybodaeth o'r Storfa Ddata Pobl Ymadawedig), Cyllid a Thollau EF (perchnogaeth ar eiddo, cyfansoddiad aelwydydd, ac enillion a chyfalaf) a Thŷ'r Cwmnïau (gwybodaeth am gwmnïau cofrestredig).

Mae prif ymarfer paru data cenedlaethol y Fenter Twyll Genedlaethol yn digwydd bob dwy flynedd, ond mae paru data disgownt person sengl y dreth gyngor yn digwydd yn flynyddol.

Mae ymarfer Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2026. Fe wnaeth y cyrff canlynol yng Nghymru gymryd rhan:

- Y 22 o awdurdodau lleol, y tri awdurdod tân ac achub, y pedwar heddlu, a Chydbwyllgor Corfforedig De Ddwyrain Cymru.
- Y saith bwrdd iechyd lleol, tair ymddiriedolaeth y GIG, y ddau awdurdod iechyd arbennig, a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (a letyir gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre).
- Llywodraeth Cymru a rhai cyrff hyd braich; Cyngor Celfyddydau Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Chwaraeon Cymru, a Trafnidiaeth Cymru.
- Archwilio Cymru ei hun.

8 Mae trefniadau tebyg i Gymru'n berthnasol yn yr Alban (dan arweiniad Audit Scotland) a Gogledd Iwerddon (dan arweiniad Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon).

Ein prif amcanion wrth baratoi'r adroddiad hwn ac o ran ein gwaith archwilio ategol oedd:

- adrodd ar ddeilliannau Menter Twyll Genedlaethol 2024-25, sy'n cynnwys deilliannau yr adroddwyd yn hwyr arnynt o'r ymarfer blaenorol;
- darparu mewnwelediad i'r canlyniadau a sut y mae cyrff yn gwneud gwaith dilynol ar eu pariadau data; a
- datblygu dealltwriaeth fwy eglur am y ffactorau sy'n dylanwadu ar ddeilliannau'r Fenter Twyll Genedlaethol a gweithgarwch ar draws cyrff, codi ymwybyddiaeth o'r Fenter Twyll Genedlaethol, ac adnabod cyfleoedd i wella ei heffaith.

Yn ystod cyfnod Menter Twyll Genedlaethol 2024-25, fe wnaethom hefyd gwblhau gwaith ar ymarfer paru data ar restrau cleifion Meddygon Teulu. Fe gyhoeddom ni adroddiad ar ddeilliannau'r gwaith hwnnw ym mis Ionawr 2026. Er bod yr ymarfer hwnnw wedi paru data trwy system y Fenter Twyll Genedlaethol, nid yw'r canlyniadau'n rhan o'r deilliannau a nodir yn yr adroddiad hwn.

Cwestiynau a meini prawf archwilio

Cwestiynau

Roedd ein gwaith archwilio'n ceisio cadarnhau:

- pa ddeilliannau y mae cyrff yng Nghymru'n adrodd arnynt o ymarfer Menter Twyll Genedlaethol 2024-25; ac
- a yw trefniadau llywodraethu a dilynol mewn perthynas â'r Fenter Twyll Genedlaethol ar draws cyrff yng Nghymru, ar lefel uchel, yn gweithredu'n effeithiol.

Meini prawf

Fe wnaeth dwy brif ffynhonnell oleuo ein meini prawf archwilio:

- Ein gwybodaeth flaenorol am y Fenter Twyll Genedlaethol a deilliannau o ymarferion blaenorol.
- Meysydd a gwmpesir mewn rhestr wirio a baratowyd gennym i helpu cyrff i hunanarfarnu sut y maent yn ymgysylltu â'r Fenter Twyll Genedlaethol. Roedd y rhestr wirio'n ymdrin â themâu o ran:
 - arweinyddiaeth, ymrwymiad a chyfathrebu;
 - cynllunio a pharatoi;
 - gwaith dilynol effeithiol ar ganlyniadau paru data; a hefyd
 - cofnodi deilliannau ac adrodd arnynt.

Dulliau

Caiff prif gamau'r Fenter Twyll Genedlaethol eu nodi isod:

- Mae cyrff yn cyflwyno data i system ddiogel y Fenter Twyll Genedlaethol.
- Mae system y Fenter Twyll Genedlaethol yn cymharu data o fewn ac ar draws cyrff i adnabod anghysonderau a all ddynodi twyll, gordaliadau, neu wallau. Adwaenir y rhain fel 'pariadau data'.
- Mae cyrff yn cael eu pariadau data trwy system y Fenter Twyll Genedlaethol mewn adroddiadau paru.
- Mae cyrff yn adolygu ac yn asesu risg adroddiadau paru i benderfynu pa rai o'r lluo posibl o bariadau data y dylent wneud gwaith dilynol arnynt.
- Mae cyrff yn cofnodi canlyniadau gwaith dilynol yn system y Fenter Twyll Genedlaethol.
- Mae'r system yn cofnodi gwerth ariannol ar gyfer deilliannau paru data lle canfyddir twyll, gordaliadau, neu wallau. Mae'r rhan fwyaf o feysydd paru data'r Fenter Twyll Genedlaethol yn cynnwys deilliannau gwirioneddol ac amcangyfrifedig.

Fe ddefnyddiom ni'r dulliau canlynol i gasglu a dadansoddi'r data a thystiolaeth ehangach sy'n goleuo'r adroddiad:

- **Dadansoddi data.** Fe ddatblygom ni offeryn dadansoddi data i ategu ein hadolygiad o weithgarwch dilynol a deilliannau yr adroddwyd arnynt gan gyrff. Roedd yr offeryn yn defnyddio data o adroddiadau a lawrlwythwyd o system we'r Fenter Twyll Genedlaethol. Mae'r holl gyfrifiadau sy'n seiliedig ar ganrannau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ffigyrau heb eu talgrynnu.
- **Cyfweiliadau.** Fe siaradom ni gyda'r swyddogion sy'n gyfrifol am y Fenter Twyll Genedlaethol ym mhob un o gyrff cyhoeddus Cymru. Fe drafodom ni sut y mae cyrff yn gwneud gwaith dilynol ar bariadau a sut y maent yn adrodd ar weithgarwch y Fenter Twyll Genedlaethol. Fe siaradom ni hefyd gyda swyddogion perthnasol eraill i adolygu agweddau penodol ar brosesu pariadau data a deilliannau yr adroddwyd arnynt.
- **Adolygu dogfennau.** Lle'r oeddent ar gael, fe wnaethom adolygu rhestrau gwirio Menter Twyll Genedlaethol cyrff a adolygwyd i'n helpu i ddeall eu dull lle mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn y cwestiwn. Fe wnaethom hefyd adolygu adroddiadau, cofnodion cyfarfodydd a phapurau a gyflwynwyd i bwyllgorau archwilio (neu'r hyn sy'n cyfateb iddynt).

- **Ymgysylltu ag Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus a chyrff archwilio eraill y DU.** Rydym yn mynychu cyfarfodydd Menter Twyll Genedlaethol chwarterol gydag Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus, Audit Scotland, a Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon. Mae'r cyfarfodydd hyn o gymorth ar gyfer dysgu a rennir. Rydym hefyd yn cynnal cyfathrebu rheolaidd arall gyda'r cyrff hyn a Synectics Solutions Ltd, darparwr system y Fenter Twyll Genedlaethol, i drafod materion o ddydd i ddydd a gwelliannau i'r system.

Costau

Nid oes cost uniongyrchol i gyrff cyhoeddus Cymru am gymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol. Mae Archwilio Cymru'n ariannu'r costau sy'n deillio o baru data a rhoi cymorth yn ganolog trwy gyllid y mae'n ei gael a gymeradwyir gan y Senedd bob blwyddyn.

Roedd y costau a dalwyd gan Archwilio Cymru i Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus dros ddwy flynedd ar gyfer Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 yn gyfanswm o oddeutu £0.21 miliwn. Mae hyn yn cynnwys costau i rai cyrff allu cael mynediad at y swyddogaeth 'AppCheck'.

Y brif gost i gyrff yw amser staff. Mae hyn yn cynnwys paratoi a chyflwyno data a gwaith dilynol unwaith y maent yn cael pariadau. Nid ydym wedi ceisio amcangyfrif y gost honno. Dylai cyrff ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg.

2 Dadansoddi deilliannau yn ôl meysydd paru data ac astudiaethau achos

Mae'r Atodiad hwn yn darparu rhagor o fanylion i ategu'r dadansoddiad lefel uchel ym mhrif gorff yr adroddiad hwn.

Mae'r drefn yr ydym wedi rhoi'r meysydd paru data ynddi'n adlewyrchu gwerth ariannol deilliannau yr adroddwyd arnynt ym Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 (o'r uchaf i'r isaf). Mae manylion y dadansoddiad yn amrywio yn ôl maes paru data, wrth i ni amlygu materion nodedig ar gyfer pob un.

Mae ein hastudiaethau achos yn cynnwys enghreifftiau o ganlyniadau cadarnhaol ac arfer da yn ogystal ag enghreifftiau lle'r ydym yn meddwl y gallai cyrff wella sut y maent yn gweithredu ar ganlyniadau paru data.


Disgowntiau person sengl y dreth gyngor

Deilliannau (Menter Twyll Genedlaethol 2024-25)	Achosion (Menter Twyll Genedlaethol 2024-25)
£3.0 million	1,825

Mae paru data disgownt person sengl y dreth gyngor yn amcanu at adnabod disgowntiau a all fod wedi cael eu dyfarnu'n anghywir. Yn benodol, mae'n ystyried a yw data a barwyd yn awgrymu bod mwy nag un oedolyn sy'n atebol am dalu treth gyngor yn meddiannu eiddo sy'n cael disgownt person sengl o 25%.

Mae **Arddangosyn 4** yn dangos bod deilliannau o ganslo hawliadau am ddisgownt person sengl y dreth gyngor wedi cynyddu ychydig i £3.0 miliwn ar gyfer Menter Twyll Genedlaethol 2024-25. O hyn, mae £1.2 miliwn yn ymwneud â disgowntiau anghymwys yr oedd unigolion eisoes wedi cael budd ohonynt (deilliannau gwirioneddol), ac y gall cyrff eu hadennill. Mae colledion amcangyfrifedig o £1.8 miliwn arall wedi cael eu hatal. Cyfrifir y rhain ar gyfer pob achos trwy luosi'r disgownt treth gyngor blyneddol â dwy flynedd.

Arddangosyn 4: gwerth deilliannau disgownt person sengl y dreth gyngor dros amser, o Fenter Twyll Genedlaethol 2016-17 i Fenter Twyll Genedlaethol 2024-25 (£ miliwn)



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru


Nodyn: Mae'r ffigyrau ar gyfer pob ymarfer yn cwmpasu cyfnod o ddwy flynedd, gan ddechrau o 1 Ebrill yn y flwyddyn a ddangosir, ac maent yn cynnwys unrhyw ddeilliannau yr adroddwyd yn hwy'r arnynt o'r ymarfer blaenorol.

Fe gynyddodd deilliannau er bod nifer yr hawliadau a ganslwyd wedi gostwng o 2,084 i 1,825. O ganlyniad, fe gododd y deiliant cyfartalog am bob hawliad a ganslwyd o oddeutu £1,410 i £1,670.

Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn paru data disgownt person sengl â'r Gofrestr Etholiadol a data arall. Dengys **Arddangosyn 5**:

- fod y rhan fwyaf o hawliadau a ganslwyd (1,559, 85%) yn ymwneud ag eiddo lle'r oedd mwy nag un oedolyn wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Etholiadol;
- bod 236 o gansladau eraill (13%) yn ymwneud ag achosion lle y gwnaeth paru data dan y Fenter Twyll Genedlaethol adnabod bod aelod arall o'r aelwyd wedi cyrraedd, neu'n agos at gyrraedd, 18 oed ar ôl cyflwyno'r data; a
- bod data arall y Fenter Twyll Genedlaethol wedi adnabod y 30 o gansladau sy'n weddill (2%), gan gynnwys sefyllfaoedd lle nad oedd yr awdurdod lleol yn ymwybodol bod y sawl a oedd yn hawlio'r disgownt wedi marw.

Arddangosyn 5: dadansoddiad o resymau dros ganslo disgowntiau person sengl y dreth gyngor, Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 (canran)



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

Nodiadau:

Mae'r ffigyrau'n cwmpasu cyfnod o ddwy flynedd, gan ddechrau o 1 Ebrill 2024, ac maent yn cynnwys unrhyw ddeilliannau yr adroddwyd yn hwyr arnynt o'r ymarfer blaenorol.

Mae'r 'Rhaid sy'n Codi'n 18' yn cyfeirio at achosion lle'r oedd person ifanc a oedd yn byw ar aelwyd a oedd yn cael disgownt person sengl wedi cyrraedd, neu'n agos at gyrraedd, 18 oed ar ôl i'r data gael ei gyflwyno ac y byddent hwythau wedyn wedi dod yn atebol am dalu'r dreth gyngor.

Fel y dengys **Arddangosyn 6**, nid yw rhai awdurdodau lleol yn gwneud digon i adolygu pariadau sy'n dynodi twyll disgownt person sengl posibl.

Arddangosyn 6: astudiaeth achos ar waith dilynol anghyson ar bariadau data disgownt person sengl y dreth gyngor

Mae paru data disgownt person sengl y dreth gyngor yn digwydd yn flynyddol tua diwedd y flwyddyn galendr.

Mae un adroddiad paru data'n amlygu aelwydydd sy'n hawlio disgownt person sengl lle mae'r Gofrestr Etholiadol yn awgrymu y gall mwy nag un oedolyn fod yn byw yn yr eiddo.

Dywedodd deg awdurdod lleol wrthym na wnaethant adolygu'r adroddiad hwn ar gyfer ymarfer disgownt person sengl 2024-25 am eu bod yn defnyddio gwasanaeth trydydd parti i wirio dilysrwydd disgowntiau person sengl yn lle'r Fenter Twyll Genedlaethol.

Canfuom amrywiad o ran sut y gwnaeth y 12 awdurdod lleol arall ymateb i'r adroddiad paru data hwn. Ni wnaeth pump ohonynt adolygu unrhyw bariadau yn yr adroddiad hwn, ac fe wnaeth dau arall adolygu tri phariad yn unig rhyngddynt.

Mae gwaith dilynol cyfyngedig yn cynyddu'r risg bod disgowntiau person sengl anghywir yn mynd heb eu canfod.

Bathodynnau glas


Deilliannau (Menter Twyll Genedlaethol 2024-25)	Achosion (Menter Twyll Genedlaethol 2024-25)
£2.2 miliwn	2,791

Mae paru data bathodynnau glas yn amcanu at atal camddefnyddio hawlenni parcio bathodyn glas. Mae paru data'n adnabod bathodynnau glas nad ydynt yn ddilys mwyach o bosibl, gan alluogi awdurdodau lleol i ganslo bathodynnau lle y bo'n briodol.

Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn paru cofnodion bathodynnau glas â data pobl ymadawedig a data'r heddlu ar ffug hunaniaethau. Mae hefyd yn paru cofnodion â data bathodynnau glas o bob rhan o'r DU i adnabod pobl a all fod yn dal mwy nag un bathodyn.

O ganlyniad i Fenter Twyll Genedlaethol 2024-25 fe ganslwyd 2,791 o fathodynnau glas. Dyma'r nifer uchaf i gael ei gofnodi yn y pum ymarfer diwethaf. Mae hefyd 78% yn fwy na Menter Twyll Genedlaethol 2022-23 (gweler **Arddangosyn 7**).

Arddangosyn 7: bathodynnau glas a ganslwyd dros amser, o Fenter Twyll Genedlaethol 2016-17 i Fenter Twyll Genedlaethol 2024-25 (nifer)



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

Nodyn: Mae'r ffigyrau ar gyfer pob ymarfer yn cwmpasu cyfnod o ddwy flynedd, gan ddechrau o 1 Ebrill yn y flwyddyn a ddangosir, ac maent yn cynnwys unrhyw ddeilliannau yr adroddwyd yn hwyr arnynt o'r ymarfer blaenorol.

Gall bathodynnau glas gael eu camddefnyddio a gallant gael eu gwerthu'n anghyfreithlon. Mae eu camddefnyddio'n lleihau argaeledd mannau parcio ar gyfer eraill. Y prif fudd ariannol yw osgoi taliadau parcio, sy'n gallu arwain at arbedion hirdymor i'r rhai sy'n defnyddio bathodynnau heb ganiatâd.

Mae Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 yn amcangyfrif deilliant o £794 ar gyfer pob bathodyn glas a ganslwyd. Roedd hyn yn cymharu â £650 y bathodyn ar gyfer Menter Twyll Genedlaethol 2022-23 a £575 ar gyfer y tri ymarfer blaenorol. Fe wnaeth un ar bymtheg o'r 22 o awdurdodau lleol ganslo bathodynnau, gan gyfrannu at y cyfanswm deilliannau yr adroddwyd arnynt o £2.2 miliwn.⁹

Fe wnaethom gwestiynu'r statws prosesu yr oedd awdurdodau lleol wedi'u cymhwyso i rai pariadau data yn system y Fenter Twyll Genedlaethol. Fe wnaeth pedwar gofnodi'r statws prosesu anghywir i ddechrau ar gyfer 1,351 o fathodynnau glas a ganslwyd. Heb iddynt fod wedi eu cywiro, ni fyddai cyrff wedi adrodd ar oddeutu £1.1 miliwn o ddeilliannau Menter Twyll Genedlaethol 2024-25.

Rhoddodd dau awdurdod yn rhagor statws prosesu anghywir i fathodynnau a ganslwyd hefyd. Am eu bod wedi cywiro'r achosion hyn ar ôl 31 Mawrth 2026, bydd gwerth £0.25 miliwn yn cael eu cofnodi fel deilliannau hwyr yn ymarfer nesaf y Fenter Twyll Genedlaethol.

Mae rhai awdurdodau'n adolygu adroddiadau ar fathodynnau glas yn brydlon ar ôl eu cael ac yn canslo bathodynnau glas yn gyflym. Nid yw eraill yn gwneud hynny, gan gynyddu'r risg y bydd bathodynnau annilys yn parhau i gael eu defnyddio. Mae **Arddangosyn 8** yn dangos arafwch gwaith dilynol mewn rhai awdurdodau lleol.

9 Mae'r ffigwr amcangyfrifedig o £794 ar gyfer pob bathodyn glas a ganslwyd yn ffigwr ledled y DU gyfan sy'n adlewyrchu colledion posibl mewn referniw o daliadau parcio a thaliadau tagfeydd. Mae'n seiliedig ar y gost flynyddol gyfartalog sy'n gysylltiedig â chamddefnydd fesul bathodyn, cyfran y bathodynnau sy'n debygol o fod wedi'u dyroddi, a'r cyfnod pan allai camddefnydd o'r fath barhau heb ei ganfod. Felly, ni fydd y £794 o anghenraid yn adlewyrchu referniw parcio a gollwyd yn ardal yr awdurdod lleol sy'n canslo'r bathodyn.

Arddangosyn 8: astudiaeth achos ar waith dilynol amhrydlon ar bariadau data bathodynau glas

Roedd y rhan fwyaf o fathodynau glas a ganslwyd yn gysylltiedig ag achosion lle nad oedd awdurdodau lleol yn ymwybodol bod deiliad y bathodyn wedi marw.

Erbyn mis Medi 2025, naw mis ar ôl rhyddhau pariadau data, nid oedd chwe awdurdod lleol wedi adolygu unrhyw bariadau mewn adroddiad a oedd yn cysylltu deiliaid bathodynau glas â phobl ymadawedig.

Erbyn 31 Mawrth 2026, roedd dau o'r awdurdodau hyn wedi prosesu eu holl bariadau yn yr adroddiad hwn ac wedi canslo cyfanswm cyfunol o 197 o fathodynau glas.

Erbyn 31 Gorffennaf 2026, roedd awdurdod arall wedi prosesu ei holl bariadau, er ei fod wedi cwblhau'r rhan fwyaf o'r gwaith hwn ar ôl 1 Ebrill 2026. O'r tri awdurdod a oedd yn weddill, roedd dau wedi prosesu 6% a 24% yn unig o'u pariadau yn yr adroddiad hwn, tra nad oedd un wedi adolygu unrhyw bariadau a gafodd.

Mae oedi cyn gwneud gwaith dilynol yn golygu bod bathodynau glas sy'n eiddo i unigolion ymadawedig yn dal i fod yn weithredol am yn hwy nag y mae angen, gan gynyddu'r risg o'u camddefnyddio.

Mae oedi'n gallu lleihau deilliannau hefyd. Mae bathodynau glas yn cael eu dyroddi fel arfer am hyd at dair blynedd. Roedd llawer o fathodynau a adnabuwyd fel rhai i'w canslo eisoes wedi dod i ben, gan olygu na ellid eu canslo mwyach trwy'r ymarfer ac na ellid adrodd arnynt fel deilliannau.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

Efallai na fydd teuluoedd wastad yn adrodd wrth awdurdodau lleol ar farwolaeth deiliad bathodyn glas. Os ydynt yn dymuno, gall timau bathodynau glas adnabod marwolaethau o'r fath trwy baru cofnodion marwolaethau lleol â chofnodion bathodynau glas a gwirio gwybodaeth o wasanaeth 'Dywedwch Wrthym Unwaith' Llywodraeth y DU.¹⁰ Mae paru data dan y Fenter Twyll Genedlaethol yn helpu awdurdodau i fynd ati'n rhwyddach i adnabod marwolaethau y tu allan i'w hardal hwy. Ac mae'n darparu gwiriad pellach ar farwolaethau sydd wedi digwydd yn lleol.

¹⁰ Gwasanaeth rhad-ac-am-ddim gan Lywodraeth y DU sy'n galluogi rhywun sy'n ymdrin â materion rhywun sydd wedi marw i hysbysu'r rhan fwyaf o adrannau'r Llywodraeth ac awdurdodau lleol am eu marwolaeth mewn un broses yw 'Dywedwch Wrthym Unwaith'.

Rhestrau aros ar gyfer tai

Deilliannau (Menter Twyll Genedlaethol 2024-25)	Achosion (Menter Twyll Genedlaethol 2024-25)
£1.4 miliwn	330


Mae paru data rhestrau aros ar gyfer tai'n amcanu at adnabod ceisiadau am dai a allai fod yn anghywir neu'n dwyllodrus.

Mae'n helpu'r awdurdodau lleol hynny sy'n dal i reoli stoc dai i gadw eu rhestrau aros yn gywir lle nad yw pobl wedi hysbysu am newidiadau yn eu hamgylchiadau neu lle maent wedi darparu gwybodaeth anghywir. Golyga hyn y gellir dyrannu adnoddau tai yn deg i'r rhai ag angen go iawn.

Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn paru data rhestrau aros ar gyfer tai â chofnodion budd-dal tai, data tenantiaethau, cofnodion marwolaethau, a data'r heddlu ar ffug hunaniaethau.

Fe wnaeth awdurdodau lleol ganslo 330 o geisiadau anghymwys o restrau aros ar gyfer tai ym Menter Twyll Genedlaethol 2024-25. Mae hyn yn gynydd o 206 o achosion (166%) o'i gymharu â'r ymarfer blaenorol. A dyma'r nifer uchaf yn y pum ymarfer diwethaf (gweler **Arddangosyn 9**).

Arddangosyn 9: ymgeiswyr anghymwys a dynnwyd oddi ar restrau aros ar gyfer tai dros amser, o Fenter Twyll Genedlaethol 2016-17 i Fenter Twyll Genedlaethol 2024-25 (nifer)



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

Nodyn: Mae'r ffigyrau ar gyfer pob ymarfer yn cwmpasu cyfnod o ddwy flynedd, gan ddechrau o 1 Ebrill yn y flwyddyn a ddangosir, ac maent yn cynnwys unrhyw ddeilliannau yr adroddwyd yn hwyr arnynt o'r ymarfer blaenorol.

Gan ddefnyddio amcangyfrif Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus o £4,283 yr achos, fe arweiniodd ceisiadau a ganslwyd at oddeutu £1.4 miliwn mewn deilliannau amcangyfrifedig.¹¹ Mae hyn yn cymharu â £0.5 miliwn yn yr ymarfer blaenorol. Fe wnaeth deilliannau yr adroddwyd yn hwyr arnynt o waith ar ddata Menter Twyll Genedlaethol 2022-23 gyfrannu £0.15 miliwn at y cyfanswm.

Ar gyfer Menter Twyll Genedlaethol 2024-25, fe gyflwynodd 18 o awdurdodau lleol ddata rhestrau aros ar gyfer tai i'w baru, gydag 17 yn gwneud gwaith dilynol ar eu pariadau. Ym Menter Twyll Genedlaethol 2022-23, un awdurdod lleol adroddodd ar y mwyafrif o'r ceisiadau a ganslwyd. Er bod yr awdurdod lleol hwn yn dal i roi cyfrif am oddeutu hanner y 330 o geisiadau a ganslwyd ar gyfer Menter Twyll Genedlaethol 2024-25, fe adroddodd chwe awdurdod yn rhagor ar gansladau hefyd.

¹¹ Mae'r dull ar gyfer cyfrifo'r deiliant amcangyfrifedig fesul achos yn ystyried cost flynyddol cartrefu teulu mewn llety dros dro, y tebygolrwydd y byddai achos ar y rhestr aros wedi cael eiddo, ac am ba hyd y gall achos twyllodrus barhau heb ei ganfod.

Fe wnaeth awdurdodau ganslo 141 o geisiadau am nad oeddent yn ymwybodol bod ymgeiswyr wedi marw. Fodd bynnag, fe danadroddwyd ar ddeilliannau sy'n gysylltiedig â'r adroddiad paru data hwn ar gyfer Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 am nad oedd awdurdodau i'w gweld fel pe baent wedi aseinio'r statws prosesu cywir i rai pariadau data. Mae **Arddangosyn 10** yn dangos un enghraifft.

Arddangosyn 10: astudiaeth achos ar danadrodd ar geisiadau i restrau aros ar gyfer tai a ganslwyd

Ni wnaeth un awdurdod lleol adrodd ar unrhyw ddeilliannau o'i waith dilynol ar yr adroddiad paru a oedd yn cysylltu ymgeiswyr i'r rhestr aros ar gyfer tai â chofnodion pobl ymadawedig. Fodd bynnag, mewn gwirionedd roedd eu gwaith wedi arwain at ganslo 89 o geisiadau.

Ers hynny mae'r awdurdod wedi diweddarau system y Fenter Twyll Genedlaethol, ac yn awr bydd yn adrodd ar ddeilliannau gwerth oddeutu £0.38 miliwn yn ymarfer nesaf y Fenter Twyll Genedlaethol.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

Cynllun gostyngiadau'r Dreth Gyngor


Deilliannau (Menter Twyll Genedlaethol 2024-25)	Achosion (Menter Twyll Genedlaethol 2024-25)
£0.94 miliwn	304

Mae paru data cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor yn amcanu at adnabod dyfarniadau a allai fod yn dwyllodrus neu'n anghywir. Mae cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor a disgownt person sengl y dreth gyngor yn wahanol.

Ar gyfer Menter Twyll Genedlaethol 2024-25, adroddodd awdurdodau lleol ar ddeilliannau gwerth £0.94 miliwn o ganslo neu ddiwygio disgowntiau'r dreth gyngor a ddeilliodd o incwm nas datganwyd neu newidiadau mewn amgylchiadau. Mae hyn yn gynnydd o ychydig dros 200% o'i gymharu â'r ymarfer blaenorol. Mae hefyd yn fwy na'r cyfanswm deilliannau cyfunol o £0.75 miliwn ar draws y pedwar ymarfer blaenorol (gweler **Arddangosyn 11**).

Arddangosyn 11: deilliannau cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor dros amser, o Fenter Twyll Genedlaethol 2016-17 i Fenter Twyll Genedlaethol 2024-25 (£ miliwn)

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru



Nodyn: Mae'r ffigyrau ar gyfer pob ymarfer yn cwmpasu cyfnod o ddwy flynedd, gan ddechrau o 1 Ebrill yn y flwyddyn a ddangosir, ac maent yn cynnwys unrhyw ddeilliannau yr adroddwyd yn hwyr arnynt o'r ymarfer blaenorol.

Fe gynyddodd nifer yr achosion a ganslwyd neu a ddiwygiwyd o 189 i 304. Roedd deilliannau gwirioneddol yn £0.72 miliwn o gyfanswm y deilliannau. Er bod deilliannau gwirioneddol neu amcangyfrifedig yr adroddwyd yn hwyr arnynt o'r ymarfer blaenorol wedi cyfrannu oddeutu £0.32 miliwn a chwarter yr holl achosion (73), fe wnaeth y gwerth cyfartalog fesul achos godi i £3,080, o'i gymharu â £1,580 yn yr ymarfer blaenorol.

Fe wnaeth awdurdodau lleol brosesu ychydig dros 7,200 o bariadau Menter Twyll Genedlaethol 2024-25, oddeutu 40% yn fwy nag yn yr ymarfer blaenorol. Mae **Arddangosyn 12** yn dangos sut y gwnaeth mwy o weithgarwch dilynol wella'r deilliannau ar gyfer un awdurdod lleol. Mae **Arddangosyn 13** yn amlygu'r deilliant uchaf sy'n gysylltiedig â phariad.

Arddangosyn 12: astudiaeth achos ar effaith mwy o weithgarwch dilynol ar ddeilliannau cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor

Fe wnaeth un awdurdod lleol adolygu 475 o bariadau data cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor, o'i gymharu â dim ond 40 yn yr ymarfer blaenorol.

Fe wnaeth y cynnydd hwn mewn gwaith dilynol gyfrannu at ddeilliannau o bron i £0.13 miliwn, i fyny o ddim yn yr ymarfer blaenorol. Dyma hefyd yw'r swm uchaf y gwnaeth unrhyw awdurdod lleol adrodd arno ar gyfer Menter Twyll Genedlaethol 2024-25.

O'r cyfanswm hwn, mae £95,000 yn ymwneud â gostyngiadau a gymhwyswyd eisoes, y gellir eu hadennill. Mae £34,000 arall yn adlewyrchu amcangyfrifon o ddisgowntiau yn y dyfodol sydd wedi cael eu hatal.

Arddangosyn 13: astudiaeth achos o'r deilliant uchaf a oedd yn gysylltiedig â chynllun gostyngiadau'r dreth gyngor

Fe wnaeth pariadau data un awdurdod lleol adnabod twyll o £57,000.

Daeth y pariad yn wreiddiol o ymarfer Menter Twyll Genedlaethol 2022-23. Fe wnaeth gwiriadau cychwynnol gan yr awdurdod lleol godi pryderon ynghylch perchnogaeth ar eiddo ac incwm rhent nas datganwyd. Fe effeithiodd y materion hyn ar hawliadau mewn perthynas â chynllun gostyngiadau'r dreth gyngor a Chredyd Cynhwysol.

Am mai Adran Gwaith a Phensiynau'r DU sy'n ymdrin â gwaith Credyd Cynhwysol, fe wnaeth yr awdurdod lleol atgyfeirio'r achos ati ac atal ei ymholiadau ei hun.

Roedd yr achos yn dal ar agor pan ddechreuodd ymarfer Menter Twyll Genedlaethol 2024-25. Fe wnaeth gwaith pellach yn lleol a chan yr Adran Gwaith a Phensiynau gadarnhau nad oedd gan yr unigolyn hawl i'r cynllun gostyngiadau na Chredyd Cynhwysol oherwydd incwm nas datganwyd.

Roedd yr unigolyn wedi elwa o ostyngiadau treth gyngor gwerth £12,000 ers 2020. Mae'r awdurdod lleol wedi adennill y swm yma trwy fil y dreth gyngor ar gyfer 2026-27. Amcangyfrifir bod colledion pellach gwerth £2,000 wedi cael eu hatal.

Fe adnabu'r Adran Gwaith a Phensiynau £43,000 o daliadau Credyd Cynhwysol anghymwys i'r unigolyn. Mae'r awdurdod lleol yn aros i glywed a fydd yr Adran Gwaith a Phensiynau'n erlyn yr unigolyn yn yr achos hwn.


Budd-dal tai

Deilliannau (Menter Twyll Genedlaethol 2024-25)	Achosion (Menter Twyll Genedlaethol 2024-25)
£0.60 miliwn	100

Mae paru data budd-dal tai’n amcanu at adnabod achosion o hawliadau twyllodrus neu anghywir, neu lle mae hawl unigolyn wedi newid ond bod cofnodion heb gael eu diweddarau.

Mae deilliannau budd-dal tai’n ymwneud ag achosion lle na wnaeth unigolion ddatgan incwm neu newidiadau yn eu hamgylchiadau. Dengys **Arddangosyn 14** sut y mae’r deilliannau hyn wedi newid dros amser. Mae hefyd yn dangos bod lefelau wedi dychwelyd at y rhai a welwyd yn ymarferion 2016-17 a 2020-21.

Arddangosyn 14: gwerth deilliannau budd-dal tai dros amser, 2016-17 i 2024-25 (£ miliwn)



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

Nodyn: Mae’r ffigyrau ar gyfer pob ymarfer yn cwmpasu cyfnod o ddwy flynedd, gan ddechrau o 1 Ebrill yn y flwyddyn a ddangosir, ac maent yn cynnwys unrhyw ddeilliannau yr adroddwyd yn hwyr arnynt o’r ymarfer blaenorol.

Mae'r gostyngiad mawr mewn deilliannau o £1.6 miliwn ym Menter Twyll Genedlaethol 2022-23 i'w briodoli'n bennaf i ddeilliannau is yr adroddwyd arnynt ar gyfer Cymru gan Adran Gwaith a Phensiynau'r DU. Serch hynny, fe wnaeth ddal i adrodd ar ychydig o dan 90% o gyfanswm deilliannau ac achosion Menter Twyll Genedlaethol 2024-25.¹² Awdurdodau lleol adroddodd ar y gweddill.

Mae'r gostyngiad yn neilliannau budd-dal tai i'w ddisgwyl. Mae nifer yr hawliadau am fudd-dal tai'n gostwng wrth i bobl newid i Gredyd Cynhwysol. Hefyd, roedd deilliannau ar gyfer Menter Twyll Genedlaethol 2022-23 yn uwch na'r disgwyl oherwydd ôl-groniadau a oedd yn gysylltiedig â'r pandemig yn Adran Gwaith a Phensiynau'r DU. Mae oddeutu £0.50 miliwn o'r deilliannau ar gyfer Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 yn ymwneud ag achosion o'r ymarfer blaenorol.

Mae **Arddangosyn 15** yn dangos sut y gwnaeth gwaith dilynol awdurdod lleol ar incwm nas datganwyd o bosibl adnabod gordaliadau budd-dal tai a hawliadau anghymwys am ostyngiadau'r dreth gyngor.

Arddangosyn 15: astudiaeth achos ar incwm nas datganwyd a arweiniodd at ordalu budd-dal tai a gostyngiadau treth gyngor anghymwys

Fe wnaeth paru data rhwng cofnodion trwyddedau gyrwyr tacsî a hawliadau budd-dal tai helpu un awdurdod lleol i adnabod incwm nas datganwyd. Roedd yr unigolyn wedi bod yn hawlio budd-dal tai a gostyngiadau'r dreth gyngor.

Fe adnabu'r awdurdod lleol ordaliad budd-dal tai o £21,000 a gostyngiadau'r dreth gyngor anghymwys gwerth £3,000. Amcangyfrifodd y Fenter Twyll Genedlaethol hefyd £1,500 mewn arbedion gostyngiadau'r dreth gyngor yn y dyfodol.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

¹² Mae'r 86 o achosion yr adroddwyd arnynt gan Adran Gwaith a Phensiynau'r DU yn cynnwys 68 o achosion gwirioneddol a 18 o achosion amcangyfrifedig. Ar ôl pontio i system newydd yn ystod Menter Twyll Genedlaethol 2024-25, nid yw'n darparu cyfrifon o achosion fesul gwlad mwyach. Caiff yr achosion amcangyfrifedig eu dosrannu yn seiliedig ar nifer yr atgyfeiriadau a wnaed gan bob gwlad.

Pensiynau

Deilliannau (Menter Twyll Genedlaethol 2024-25)	Achosion (Menter Twyll Genedlaethol 2024-25)
£0.17 miliwn	26

Mae paru data pensiynau’n galluogi cyrff i adnabod achosion lle mae taliadau pensiwn yn parhau ar ôl i rywun farw. Mae hefyd yn helpu i adnabod materion megis pensiynwyr yn ailgydio mewn cyflogaeth a allai arwain at leihau neu atal eu pensiwn, a phensiynau sy’n cynnwys taliadau ychwanegol anghywir am anafiadau.

O’r 12 corff sy’n gweinyddu pensiynau’n uniongyrchol, fe wnaeth saith adnabod cyfanswm o 26 o achosion lle gwnaeth taliadau barhau ar ôl marwolaeth. Mae hyn yn cymharu â 40 o achosion ar yr ymarfer blaenorol.

Roedd cyfanswm y deilliannau ariannol wedi gostwng o £0.45 miliwn yn flaenorol. O’r deilliannau gwerth £0.17 miliwn yr adroddwyd arnynt ar gyfer Menter Twyll Genedlaethol 2024-25, mae £0.11 miliwn yn ymwneud â gwerth gordaliadau yn y dyfodol a ataliwyd trwy atal y taliadau.¹³ Er gwaethaf y nifer is o achosion, fe wnaeth gwerth gordaliadau pensiwn y gellir eu hadennill (deilliannau gwirioneddol) godi ychydig o £41,000 i £62,000.

Mae **Arddangosyn 16** yn manylu ar y gordaliad pensiwn uchaf ei werth. Fe gododd hyn oherwydd na ddwedwyd wrth weinyddwr y cynllun pensiwn am farwolaeth pensiynwr dramor.

¹³ Mae’r dull o gyfrifo deilliannau pensiwn amcangyfrifedig yn lluosu pensiwn blynyddol y pensiynwr â nifer y blynyddoedd nes byddai’r pensiynwr wedi cyrraedd 85 oed (yn seiliedig ar ddata’r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar ddisgwyliad oes unigolyn dros 65). Os yw’r pensiynwr yn 85, cymhwysir lluosydd un flwyddyn.

Arddangosyn 16: astudiaeth achos ar y Fenter Twyll Genedlaethol yn adnabod gordaliadau pensiwn oherwydd marwolaeth dramor nad hysbyswyd yn ei chylch

Fe wnaeth y Fenter Twyll Genedlaethol helpu un awdurdod lleol i adnabod bod taliadau pensiwn wedi parhau ar gyfer unigolyn a fu farw dramor yn 2021.

Bu farw'r pensiynwr, gwraig weddw heb berthynas agosaf hysbys, mewn gwlad nad yw'n cymryd rhan mewn gwiriadau 'prawf o fywyd' rheolaidd. O ganlyniad, nid oedd yr awdurdod yn ymwybodol o'r farwolaeth, ac fe barhaodd taliadau tan yn gynnar yn 2026.

Mae'r awdurdod yn gweithredu i adennill y gordaliad o £19,000. Fe wnaeth adnabod yr achos hwn helpu i atal gordaliadau pensiwn pellach gwerth £44,000 yn ôl yr amcangyfrif.

Taliadau i gredydwyr

Deilliannau (Menter Twyll Genedlaethol 2024-25)	Achosion (Menter Twyll Genedlaethol 2024-25)
£0.14 miliwn	71

Mae paru data taliadau i gredydwyr yn amcanu at adnabod taliadau i gredydwyr a allai fod yn rhai dyblyg, anghywir neu afreolaidd. Mae hefyd yn helpu i lanhau cofnodion credydwyr.

Fe wnaeth nifer yr achosion o daliadau dyblyg i gredydwyr a adnabuwyd trwy'r Fenter Twyll Genedlaethol gynyddu o 42 ar yr ymarfer blaenorol i 71. Dyma'r nifer uchaf o achosion i gael eu cofnodi ar draws y pum ymarfer diwethaf. Fodd bynnag, fe wnaeth cyfanswm gwerth y deilliannau haneru i £0.14 miliwn (gweler **Arddangosyn 17**).

Arddangosyn 17: achosion a adnabuwyd a gwerth taliadau dyblyg i gredydwyr dros amser, o Fenter Twyll Genedlaethol 2016-17 i Fenter Twyll Genedlaethol 2024-25 (nifer a £ miliwn)

	Nifer yr achosion	Deilliannau (£ miliwn)
2016-17	61	0.08
2018-19	53	0.09
2020-21	54	0.10
2022-23	42	0.28
2024-25	71	0.14

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

Nodyn: Mae'r ffigyrau ar gyfer pob ymarfer yn cwmpasu cyfnod o ddwy flynedd, gan ddechrau o 1 Ebrill yn y flwyddyn a ddangosir, ac maent yn cynnwys unrhyw ddeilliannau yr adroddwyd yn hwyr arnynt o'r ymarfer blaenorol.

Mae rhai cyrff yn adolygu pariadau credydwyr y Fenter Twyll Genedlaethol yn weithredol. Nid yw eraill yn gwneud hynny, a hwythau'n dibynnu yn hytrach ar reolaethau ar systemau i atal taliadau dyblyg neu anghywir, canfod twyll posibl, ac adnabod materion yn y gorffennol.

Bu nifer y cyrff a wnaeth adnabod taliadau dyblyg bron â dyblu, gan godi o saith ar gyfer Menter Twyll Genedlaethol 2022-23 i 13 ar gyfer Menter Twyll Genedlaethol 2024-25. Mae rhai o'r 13 o gyrff hyn hefyd yn defnyddio offer canfod ac atal trydydd partiön.

Gofal cymdeithasol i oedolion

Deilliannau (Menter Twyll Genedlaethol 2024-25)	Achosion (Menter Twyll Genedlaethol 2024-25)
£0.12 miliwn	6

Fe wnaeth Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 ailgyflwyno paru data gofal cymdeithasol i oedolion ran o'r ffordd trwy'r ymarfer. Mae paru'r data yma'n amlygu achosion posibl o'r canlynol:

- taliadau i gartrefi gofal preswyl lle mae preswlydd wedi marw, ond yr awdurdod lleol heb gael gwybod o bosibl a'r taliadau'n parhau; a
- thaliadau uniongyrchol lle mae'r derbynnydd wedi marw ond y taliadau'n parhau, neu fod rhywun yn hawlio taliadau uniongyrchol gan fwy nag un awdurdod lleol.

Fe wnaeth y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, ond nid pob un ohonynt, gyflwyno data ym mis Medi 2025. Cawsant eu pariadau ym mis Rhagfyr 2025, ond gyda chynnydd cymysg o ran gwneud gwaith dilynol arnynt wedi hynny.

Adroddodd awdurdodau ar ddeilliannau a oedd yn gyfanswm o £0.12 miliwn ar gyfer pariadau data cartrefi gofal preswyl. Roedd hyn yn cynnwys £62,000 mewn gordaliadau adenilladwy a £55,000 mewn arbedion amcangyfrifedig yn y dyfodol. Roedd y rhain yn ymwneud â phum achos.

Fe wnaeth un awdurdod adnabod gordaliad o £31,000 a oedd yn gysylltiedig â thaliadau uniongyrchol lle'r oedd y derbynnydd wedi marw. Fe gadarnhawyd gwerth yr achos hwnnw ar ôl 31 Mawrth 2026, felly bydd yn cael ei gofnodi fel deilliant yn ymarfer nesaf y Fenter Twyll Genedlaethol.

Cyflogres

Deilliannau (Menter Twyll Genedlaethol 2024-25)	Achosion (Menter Twyll Genedlaethol 2024-25)
£46,000	5

Mae paru data cyflogresi’n targedu twyll cyflogaeth posibl. Mae hyn yn cynnwys achosion lle mae unigolion yn gweithio i fwy nag un corff ar yr un pryd, gan gynnwys rolau â sifftiau sy’n gorgyffwrdd.

Mae paru data cyflogresi hefyd yn gallu adnabod unigolion sy’n cael taliadau absenoldeb hirdymor oherwydd salwch gan un cyflogwr a hwythau hefyd yn gweithio i un arall. Ac mae’n chwilio am achosion lle na ddatganwyd ail gyflogaeth, a allai fod yn groes i gontractau neu bolisïau.

Fe wnaeth tri chorff adnabod pum achos o dwyll, gordaliadau, a gwallau rhyngddynt ar gyfer Menter Twyll Genedlaethol 2024-25, gyda chyfanswm deilliannau o £46,000. Mae hyn yn cymharu â deilliannau o £3,000 yn unig ar yr ymarfer blaenorol. Mae **Arddangosyn 18** yn egluro’r pariad data cyflogres uchaf ei werth.

Arddangosyn 18: astudiaeth achos ar y deilliant uchaf a gofnodwyd a oedd yn gysylltiedig â phariad data cyflogres

Yn dilyn pariad rhwng cyflogresi gan y Fenter Twyll Genedlaethol, fe wnaeth un bwrdd iechyd adnabod oddeutu £26,000 mewn gordaliadau cyflog a wnaed mewn camgymeriad ar ôl i unigolyn adael ei gyflogaeth.

Fe barhaodd y taliadau am chwe mis tra’r oedd yr unigolyn yn gweithio i fwrdd iechyd arall. Maent wedi cael eu hadennill ers hynny.

Fe wnaeth y bwrdd iechyd waith dilynol ar ei bariadau cyflogres yn fuan ar ôl eu cael. Fe wnaeth gweithredu’n brydlon fel hyn helpu i gyfyngu ar faint y gordaliad ac adnabod rheolaethau i atal digwyddiadau tebyg.

Caffael

Deilliannau (Menter Twyll Genedlaethol 2024-25)	Achosion (Menter Twyll Genedlaethol 2024-25)
£0	0

Mae paru data caffael yn amcanu at atal a chanfod twyll caffael posibl. Mae’n paru data cyflogresi â chofnodion Tŷ'r Cwmnïau a data credydwyr i amlygu gwrthdaro buddiannau posibl sydd heb eu datgan a thaliadau afreolaidd i gyflenwyr.

Ni wnaeth gwaith dilynol ar y pariad data hwn adnabod unrhyw achosion. Fodd bynnag, fe adnabu rhai cyrff gyfleoedd i gryfhau sut y maent yn cael datganiadau o fuddiant. Er enghraifft, estyn gofynion datgan buddiannau i fwy o staff, a darparu mwy o ganllawiau a hyfforddiant mewn perthynas â hwy.

Tenantiaeth tai

Deilliannau (Menter Twyll Genedlaethol 2024-25)	Achosion (Menter Twyll Genedlaethol 2024-25)
£0	6

Mae paru data tenantiaethau tai'n amlygu achosion lle gallai tai cymdeithasol fod wedi'u meddiannu'n dwyllodrus neu'n amhriodol. Mae'n helpu i ddiogelu adnoddau tai cymdeithasol ar gyfer y rhai sydd â hawl iddynt.

Ni wnaeth yr un o'r 11 o awdurdodau lleol â'u stoc dai eu hunain adrodd ar unrhyw achosion o denantiaid yn isosod eu heiddo'n dwyllodrus yn seiliedig ar eu gwaith dilynol.

Fe adroddodd un awdurdod lleol ar chwe achos o olyniaeth tenantiaeth gyfreithlon yn dilyn profedigaeth. Mae gwybodaeth a gofnodwyd yn system y Fenter Twyll Genedlaethol gan awdurdodau lleol eraill yn awgrymu y tanadroddir ar achosion o'r fath.

3 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn

Term	Disgrifiad
Achos / achosion (o dwyll, gordaliad, neu wall)	Pariad data y mae corff wedi gwneud gwaith dilynol arno a lle cadarnhawyd twyll, gordaliad, neu wall. Ystyr twyll yw lle bu gweithred fwriadol o dwyll i gael taliad, disgownt, gwasanaeth neu hawl yr oedd yr unigolyn yn gwybod nad oedd ganddynt hawl i'w g/chael. Ystyr gwall yw lle cododd taliad, disgownt neu hawl anghywir yn anfwriadol. Ystyr gordaliad yw pan fo rhywun yn cael mwy nag oedd ganddynt hawl i'w gael. Gall ddeillio o dwyll, gwall, neu reswm arall.
Adroddiad paru data	Adroddiad ar bariadau data sy'n deillio o gymharu dwy neu fwy na dwy set o ddata.
AppCheck	Offer atal twyll a gwirio ceisiadau'r Fenter Twyll Genedlaethol.
Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus (PSFA)	Mae Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus yn gweithio gydag adrannau Llywodraeth y DU a chyrff cyhoeddus i ddeall a lleihau effaith twyll. Mae'n arwain y Fenter Twyll Genedlaethol ar lefel y DU ac yn Lloegr. Mae Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus bellach yn rhan o Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU, ac yntau wedi symud o Swyddfa'r Cabinet yn ystod 2026.
Budd-dal tai	Budd yn seiliedig ar brawf modd sy'n helpu pobl gymwys ar incwm isel i dalu eu costau tai.
Cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor	Budd sy'n seiliedig ar brawf modd yw cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor. Fe'i rheolir gan awdurdodau lleol ac mae'n lleihau cost treth gyngor i aelwydydd ar incwm isel, a hynny'n llawn neu, yn fwy arferol, yn rhannol.
Deilliannau	Gwerth ariannol twyll, gordaliadau a gwallau a ganfuwyd ac a ataliwyd trwy baru data. Maent yn cynnwys deilliannau gwirioneddol a deilliannau amcangyfrifedig.

Term	Disgrifiad
Deilliannau amcangyfrifedig	Gwerth ariannol amcangyfrifedig colledion o dwyll, gordaliadau neu wallau a ganfuwyd ac unrhyw golledion yn y dyfodol y gallai cyrff fod wedi'u hysgwyddo heb ymyrraeth yn dilyn pariad dan y Fenter Twyll Genedlaethol. Cyfrifir deilliannau amcangyfrifedig gan ddefnyddio dulliau cytunedig y mae Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus yn eu hadolygu cyn pob un o ymarferion y Fenter Twyll Genedlaethol gyda mewnbwn gan eraill. Pan fo corff yn cofnodi twyll, gordaliad neu wall, mae system y Fenter Twyll Genedlaethol yn cynhyrchu'r elfen deilliannau amcangyfrifedig yn awtomatig.
Deilliannau gwirioneddol	Symiau ariannol gwirioneddol a gofnodwyd fel twyll, gordaliadau, neu wallau. Gallai'r rhain fod yn adenilladwy.
Disgownt person sengl y dreth gyngor	Mae rhwymedigaeth treth gyngor yn seiliedig ar amgylchiadau lle mae o leiaf ddau oedolyn yn byw mewn eiddo. Mae disgownt person sengl y dreth gyngor o 25% yn gymwys lle mae person yn byw ar ei ben ei hun, neu lle mae'r holl oedolion eraill sy'n byw yn yr eiddo wedi'u heithrio rhag talu'r dreth gyngor.
Hawlenni bathodyn glas	Mae'r cynllun bathodyn glas yn gweithredu ledled y DU. Dyroddir bathodynnau i bobl ag anawsterau symudedd i ganiatáu iddynt barcio'n rhad ac am ddim mewn rhai sefyllfaoedd penodol. Mae'r rhain yn cynnwys mesuryddion parcio ar y stryd, cilfachau talu ac arddangos, mannau dynodedig ar gyfer defnyddwyr bathodynnau glas, a, lle caniateir hynny, ar linellau melyn sengl neu ddwbl.
Maes paru data	Casgliad o adroddiadau paru data'r Fenter Twyll Genedlaethol ar gyfer pynciau penodol, megis disgownt person sengl y dreth gyngor, budd-dal tai, neu'r gyflogres.

Term	Disgrifiad
Menter Twyll Genedlaethol 2024-25	Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 yw'r ymarfer sy'n adrodd ar ddeilliannau a gofnodwyd gan gyrff rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2026 a chan gynnwys deilliannau yr adroddwyd yn hwyr arnynt o'r ymarfer blaenorol. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith paru data'n digwydd bob dwy flynedd, ond ar gyfer disgownt person sengl y dreth gyngor mae'n digwydd yn flynyddol.
Menter Twyll Genedlaethol 2022-23	
Menter Twyll Genedlaethol 2020-21	
Menter Twyll Genedlaethol 2018-19	
Menter Twyll Genedlaethol 2016-17	Yn yr un modd, mae pob un o ymarferion blaenorol y Fenter Twyll Genedlaethol yn cwmpasu cyfnod o ddwy flynedd, sy'n dechrau o 1 Ebrill yn y flwyddyn a ddangosir, gyda data'n cael ei baru a ffigyrau'n cael eu coladu ar yr un sail.
Pariad data	Anomaledd neu anghysondeb a adnabuwyd trwy baru data a allai ddynodi twyll, gordaliad, neu wall posibl ac sy'n teilyngu gwaith dilynol.
Pariadau data a broseswyd	Pariadau data a broseswyd yw'r rhai y mae cyrff yn eu cofnodi fel rhai sydd 'wedi'u cau' yn system y Fenter Twyll Genedlaethol. Mae gan gyrff yr opsiwn i gofnodi pariadau data fel rhai sydd wedi'u prosesu yn dilyn asesiad risg, hyd yn oed os ydynt yn penderfynu peidio â gweithredu ymhellach.
System y Fenter Twyll Genedlaethol	Platfform paru data diogel sydd: • yn cael data gan gyrff; • yn paru data rhwng setiau data; • yn cynhyrchu adroddiadau paru sy'n amlygu twyll, gordaliadau neu wallau posibl; ac • yn darparu porth ar y we y mae cyrff yn ei ddefnyddio i adolygu pariadau a gwneud gwaith dilynol arnynt, a chofnodi deilliannau.
Taliadau i gredydwyd	Taliadau i gyflenwyr nwyddau a gwasanaethau.
Y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI)	Ymarfer gwrthdwyll ledled y DU gyfan a grëwyd gyntaf ym 1996. Mae'n helpu i atal a chanfod twyll trwy rannu a pharu setiau o ddata gan gyrff amrywiol. Awdurdod Twyll Sector Cyhoeddus (PSFA) sy'n arwain y Fenter Twyll Genedlaethol ar lefel y DU ac yn Lloegr, ond fe'i cyflawnir yng Nghymru dan bwerau paru data'r Archwilydd Cyffredinol.

Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd ar gyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cyngorau a chyrff llywodraeth leol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar y modd y mae'r sefydliadau hyn yn defnyddio adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni eu gwaith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir am Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.



Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.